CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

Er mwyn i fudd ddeillio o ymchwil ac i leihau'r risg o niwed, mae'n rhaid ei gynnal yn foesegol. Mae'n bosibl na fydd ymchwilydd wedi'i ddiogelu gan yswiriant y Brifysgol os na chafwyd cymeradwyaeth foesegol cyn cychwyn.

Mae'r Brifysgol yn dilyn diffiniad yr OECD o **weithgarwch ymchwil** a geir yn llawlyfr Frascati: "gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hon o wybodaeth i lunio cymwysiadau newydd" Yn hynny o beth, mae hyn yn cwmpasu gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r staff, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig a addysgir sy'n gweithio ar draethodau hir/prosiectau.

Gelwir yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch ymchwil yn "brif ymchwilydd".

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol ar gyfer archwiliadau arferol, adolygiadau perfformiad, astudiaethau sicrhau ansawdd, profion o fewn gofynion addysgol arferol, a beirniadaeth lenyddol neu artistig.

Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau HOLL adrannau'r ffurflen.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymchwil. Gweler y Rhestr Wirio am fanylion y broses ar gyfer categorïau gwahanol o geisiadau.

Dilëwch y Nodiadau Cyfarwyddyd ar ddiwedd y ffurflen CYN cyflwyno eich cais

ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

1	Enw Llawn:		Caitlin Haf Davies			
2	Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:		Aelod o'r staff:	☐	Cymrawd ymchwil anrhydeddus:	☐
3	Myfyriwr Israddedig	☒	Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir	☐	Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig	☐

4	Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:	Canolfan Plentyndod, Ieunctyd ac Addysg
5	Campws:	Cerfyrddin
6	Cyfeiriad e-bost:	2000500@student.uwtsd.ac.uk
7	Rhif Ffôn Cyswllt:	Dim angen
	I fyfyrwyr:	
8	Rhif y Myfyriwr:	2000500
9	Rhaglen Astudio:	Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
10	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Sioned Saer

ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategorïau gwahanol o unigolion)	**YDY**	☒	**NAC YDY**	☐
				Dyddiad	
2	Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus) ***Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol***	Pwyllgor Graddau Ymchwil	☐		
3		Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa	☐		
4		Arall (noder)	☒	**Tiwtor – Sioned Saer**	

ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol

	Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn.	
1	**Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS**	☒
2	**Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS**	☒
3	**BERA Ethical Guidelines for Educational Research 2018**	☒

ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys cydweithwyr y tu allan i'r Brifysgol?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☒
2	Os Ydy, rhowch enw'r sefydliad allanol ac enw a manylion cyswllt y prif berson cyswllt a chadarnhad bod y person hwn wedi cydsynio i'w ddata personol gael eu rhannu yn rhan o'r cydweithio hwn:					
3	Sefydliad					
4	Enw'r person cyswllt					
5	Cyfeiriad e-bost y person cyswllt					
6	Ydy'r unigolyn hwn wedi cydsynio i rannu ei fanylion ar y ffurflen hon?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐
7	Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth KESS?		**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
8	Ydy eich ymchwil yn cael ei ariannu'n allanol?		**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐
9	Ydych chi wedi'ch cyflogi'n benodol i ymgymryd â'r ymchwil hwn naill ai am dâl neu'n wirfoddol?	Gwirfoddol	**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
10		Cyflogedig	**YDW**	☐	**NAC YDW**	☐
11	A yw'r ymchwil yn cael ei wneud o fewn un o Bartneriaethau Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) PCYDDS sy'n bod yn barod?	Os YDY yna nid oes angen ateb y cwestiwn caniatâd isod.	**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐
12	Mae caniatâd i ymgymryd â'r ymchwil wedi'i roi gan y sefydliad partner	(Os YDY atodwch gopi) Os NA ni all y cais fynd yn ei flaen	**YDY**	☐	**NAC YDY**	☐

Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol

13	A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesegol ei hun?	**OES**	☐	**NAC OES**	☐
14	Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad				

ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

1	Teitl dangosol:	Archwilio'r strategathau a ddefnyddir i gynorthwyo plant ifanc sydd ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar: A ydyn nhw'n effeithiol?		
2	Dyddiad cychwyn arfaethedig:	Hydref 30ain, 2021	Dyddiad gorffen arfaethedig:	Ebrill 1af, 2021

3	**Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau)** **Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r tri phwynt isod:** • *Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil* • *Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig* • *Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil* • *Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil* Dangoswch, yn gryno, sut mae **<u>Ymchwil Cyfredol</u>** wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch • *Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth* • *Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.*
4	**Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil** Yn ôl **Speaks (2011)**, awtistaidd yw anhwylder sydd yn effeithio cyfathrebiad a rhyngweithiad gyda phlant ac oedolion. Mae **Speaks (2011)** hefyd yn dweud bod plentyn sydd ag awtistaidd yn hoffi cael trefn benodol i'w dydd ac yn drysu pryd mae'r drefn yn newid. Maen nhw hefyd yn ailadrodd gweithgareddau a symudiadau **(Speaks, 2011).** Cytuna'r NHS **(2019)** gyda **Speaks (2011),** mae'r NHS (**2019)** hefyd yn dweud bod plant sydd ag awtistaidd yn gallu fod yn bryderus neu'n drist am sefyllfa anghyfarwydd a digwyddiadau cymdeithasol. Awgryma **Llywodraeth Cymru (2019)** bod grwpiau chwarae strwythuredig yn helpu datblygu sgiliau chwarae ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r grwpiau yma yn cynnwys gweithgareddau sydd yn annog rhyngweithiad gyda chyfoedion ac adeiladu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol, er enghraifft, sgiliau rhannau a chymryd tro yn defnyddio adnoddau (**Llywodraeth Cymru 2019).** Mae'r gweithgareddau yn cynnwys themâu sydd yn annog chwarae rhagweithiol, a chefnogwyd gyda thechnegau cyfarwyddiadau gan ymarferwyr fel modelu, adnoddau a lluniau. Cytuna **Autism Wales (2020),** bod defnyddio lluniau a chardiau fflach yn helpu cyrfau dealltwriaeth cyfathrebu i blant. Mae Erthygl 31 Y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn amlinellu'r hawl i blant i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau **(Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad)**. Felly, mae'r gweithgaredd ymchwil a gynigir ar y ffurflen hon yn bwriadu cynnal astudiaeth ansoddol a fydd yn cyfweld a Chynorthwyydd Dosbarth 1:1 mewn pum ysgol wahanol. Rydw i fynd i ymweld â dwy ysgol yn ysgolion sydd yn cefnogi plant sydd yn awtistaidd, a tair ysgol arall sydd gydag unedau i blant sydd ag ADY. Bydd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar weithgareddau a'r adnoddau sydd yn ymwneud a chwarae synhwyraidd a sut maen nhw'n effeithiol i blant.
5	**Cwestiwn Ymchwil** Pa fath o strategaethau sy'n cael i ddefnyddio gan ymarferwyr i gefnogi plant awtistaidd i chwarae, a ydyn nhw'n datblygu wrth chwarae?

6	**Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil** Cyfweld gyda ymarferwyr 1:1 yn ysgolion sydd â undedau i blant gyda ADY, i weld pas fath o strategaethau sy'n cael iddefnyddio gan ymarfwerwyr i genfoni plant awtistaidd i chwarae.
7	**Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil** Cyfweld a 5 cynorthwyydd 1 i 1 yn bum Ysgol sydd gydag unedau i blant sydd â ADY gwahanol sy'n cynnwys cyfweld mewn swyddfa er mwyn gallu archwilio eu dehongliad o strategaethau a phwysigrwydd chwarae i blant ag awtistaidd. I gymryd nodiadau a recordiad o'r cyfweliadau fel bod cofnod gweledol o'r cyfweliadau ar gael i'w dadansoddi.
8	**Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau)** Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y **gellid** eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny.
9	Gofynnwyd yn barod i bum lleoliad a ddefnyddir yn yr ymchwil i weld a fyddent yn hoffi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, wrth gwrs os mae'r materion moesegol yn cael i dderbyn. Pan mae'r cyfranogwyr wedi derbyn yn foesegol, bydd y rheolwyr lleoliad yn cael ymweliadau neu alwad ffôn i drafod y prosiect yn fanwl. Dewiswyd pum lleoliad yn Sir Gaerfyrddin, sydd ag cynorthwyydd 1:1. Dewiswyd y bum lleoliad sydd ag unedau i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, dewiswyd y lleoliad yma oherwydd fydd modd cael mwy o wybodaeth ddibynadwy ac addas am y maes ddiddordeb. Y cam nesaf yw danfon llythyron at y bum cynorthwyydd 1:1 unwaith bydd y lleoliadau yn rhoi caniataid. Anfonir llythyrau caniatâd at y cynorthwyydd i weld os ydynt am fod yn rhan o'r ymchwil. Hefyd, byddai'n trefnu i drafod caniatâd a materion moesegol eraill yn bersonol gyda'r ymarferwyr, yn unol â darparu caniataid gwirfoddol gwybodus, fel amlinellir yn BERA (2018). Byddai'n cyfweld a'r pum cynorthwyydd unwaith i redeg y cyfweliad, bydd y cyfweliadau yn cael i gynnal yn fis Tachwedd a Rhagfur. Bydd y cyfweliad yn cael i gynna am tua un awr. Bydd yr amseroedd yn cael i benderfynu gan yr ymarferwyr er mwyn cefnogi lles y cyfranogwyr yn unol â BERA (2018) A Flewitt (2020). Bydd yr ymchwilydd yn canolbwyntio ar strategaethau sy'n cael i ddefnyddio gan ymarferwyr i gefnogi plant sydd ag awtistaidd. Trwy gydol y cyfweliad, bydd yr ymchwilydd yn cymryd nodiadau a recordio sain ar gyfer dadansoddi. Bydd y dictaphone yn fach, felly fydd hi'n cael i osod ar fwrdd yn yr ystafell. Bydd y recordiad a nodiadau yn ffurfio data ar gyfer rhannu canlyniadau'r astudiaeth a byddant yn cael eu dadansoddi ym mis Chwefror ar ôl casglu'r data i gyd. Mi fydd yr ymchwilydd yn ymarfer defnyddio'r dictophone a'r offer cofnodi cyn i'r cyfweliadau i ddechrau. Hefyd, bydd yr ymchwilydd yn sicrhau nad yw'r cwestiynau a ofynnir yn ansensitf, yn amhriodol nac yn aneglur.
10	**Lleoliad y gweithgarwch ymchwil** Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.
11	Yn y pum lleoliad gwahanol, dwy ysgol gynradd sydd yn cefnogi plant awtistaidd a tair ysgol gynradd sydd ag unedau i blant efo ADY, yn Sir Gaerfyrddin. Fe fydd hyn yn cael i gynnal yn un o'r swyddfeydd yr ysgol.
12	**Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU** Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed.

13	_____ *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*		
14	Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau **NAD** ydynt ar gael yn gyhoeddus?	**NAC OES**	☒
		OES	☐
15	Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw wedi'i chyhoeddi a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*		

ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

1	**Fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:**	**BYDD**	**NA FYDD**
2	Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	☐	☒
3	Defnyddio cyfweliadau?	☒	☐
4	Defnyddio dyddiaduron?	☐	☒
5	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	☐	☒
6	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	☐	☒
7	Defnyddio recordio fideo neu sain?	☒	☐
8	Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	☐	☒
9	Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	☐	☒
10	Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	☐	☒
11	Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
12	Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	☐	☒
13	Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	☐	☒
14	Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw?	☐	☒
15	Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol. Eglurwch yn y blwch hwn Er enghraifft, 'grwpiau ffocws'. Nodwch y math o ddull(iau) casglu data yn y blwch hwn a thiciwch y blwch cysylltiedig.	☐	☒
16	Manylion unrhyw ddulliau eraill o gasglu data gwreiddiol: (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesegol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesegol lawn.

ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

1	**Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:**	IE	NA
2	Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	☐	☒
3	Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	☒	☐
4	Oedolion agored i niwed?	☐	☒
5	Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad)	☐	☒
6	Carcharorion?	☐	☒
7	Troseddwyr ifanc?	☐	☒
8	Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynnol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr (*gatekeeper*)?	☐	☒
9	Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
10	Eraill (nodwch yn benodol unrhyw grŵp nad ydynt efallai'n gallu rhoi cydsyniad). Nodwch nhw yma a thicio'r blwch priodol	☐	☒
11	Arall – nodwch yma: (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

12	**Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr** Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwyliedig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?	
13	Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?	Cynorthwyydd Dosbarth 1:1, dros 18 oed, 4 – 5 o unigolion. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
14	Pwy fydd y cyfranogwyr?	Cynorthwyydd Dosbarth 1:1, dros 18 oed *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
15	Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?	Mae'r lleoliadau wedi'u cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil. Bydd yr ymchwilydd yn gweithio gyda'r lleoliad i adnabod yr unigolion i weithio gyda nhw. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

16	**Gwybodaeth i gyfranogwyr:**	BYDDAF	NA FYDDAF	AMH.
17	A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	☒	☐	☐
18	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	☒	☐	☐
19	A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?	☒	☐	☐
20	A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	☒	☐	☐
21	Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	☐	☐	☒
22	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	☒	☐	☐

23	Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	☐	☐	☒
24	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	☒	☐	☐
25	A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?	☒	☐	☐
26	Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad			
27	*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*			

28	**Gwybodaeth i gyfranogwyr:**	**BYDD**	**NA FYDD**	**AMH.**
29	A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	☐	☒	☐
30	A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	☐	☒	☐
31	A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	☐	☒	☐
32	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	☐	☒	☐
33	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn			
34	*(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*			

ADRAN H: Risgiau a Ragwelir

1	**Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw.** Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn (er enghraifft fel sy'n ofynnol gan labordy, neu gydweithiwr ymchwil allanol) gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon.		
2	**A oes asesiad risg llawn wedi'i gwblhau a'i atodi?**	**Oes**	☐
		Nac oes	☒
3	**Risgiau i'r cyfranogwyr** Er enghraifft: gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif		
4	Risg i'r Cyfranogwr: Gan fod y cyfweliad yn cael i recordio, fe gall yr ymarferwyr teimlo'n anghyfforddus yn cael i recordio neu yn cael nodiadau i gymryd. Mae hyn yn gallu effeithio lled a'u hiechyd emosiynol yr ymarferwyr. Bydd y cyfweliadau yn unigol, heblaw'r ymchwilydd. Efallai fydd yr ymarferydd yn poeni am hyn a theimlo eu bod yn brawf neu'n gyfle i farnu eu hymarfer, sydd y gallu codi gofid a phryder.	*Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Cyfranogwr* Trwy gydol y cyfweliad bydd yr ymchwilydd yn monitro'n ofalus ar yr ymarferwyr i weld am unrhyw arwyddion o ddrysu, mae'r camera yn fach ond fydd yr ymchwilydd yn ymwybodol bod y camera yna. Bydd yr ymchwilydd yn gallu ymateb o geisiadau i beidio i gyfweld na recordio. Mae trafodaeth yn cael i drefnu gyda'r ymchwilydd ar ymarferwyr i esbonio bod cyfweliad yw hi a dim prawf neu asesiad. Bydd yn hefyd yn cael i ail dweud ar gychwyn y cyfweliad.	

	Gallai nodiadau neu recordiadau ffilm a sain a gymerwyd cael eu colli neu rannu'n ehangach na'r tîm ymchwil. Gallai'r ymchwilydd weithdreu'n anfwriadol mewn ffordd sy'n amhriodol neu'n amhroffesiynol o ran lleoliadau plentyndod cynnar, sy'n achosi gofid emosiynol neu niwed i blant ac ymarferwyr.	I gadw gwybodaeth yn ddiogel o dan ddeddf diogeli ddata 1998, bydd yr holl ddata'n cael i gadw mewn cwpwrdd dan glo, ystafell dan glo. Mae hefyd opsiwn i lawrlwytho'r data ar gyfrifiaduron y Brifysgol ar ofod personol sudd wedi'i diogelu gan fur tan, mynediad cyfrinair yn unig ac wedi'i amgryptio. Cyn dechrau'r ymchwil bydd yr ymchwilydd yn cymryd amser i drafod polisi a gweithdrefnau'r lleoliad gydag Arweinydd . Bydd yr arweinydd y lleoliad yn sicrhau ei fi fo yn adnabod y normau a pholisïau'r lleoliad. Mae'r ymchwilydd hefyd yn fyfyrwyr blynyddoedd cynnar ac mae'n ymwybodol o arfer gorau'r blynyddoedd cynnar.
5	Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhowch fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd, neu a allai fod, yn anghyfreithlon yn ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol	
6	**Risgiau i'r ymchwilydd** Er enghraifft: diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau	
	Risg i'r ymchwilydd: Mae risg bod ymchwilydd yn torri'r polisiau yn ddamweiniol, fel polisiau lled a diogelu. Fe gall hyn gallu rhoi risg i ymchwilwyr i gael perygl o gyhuddiadau yn eu herbyn. Gall ymchwilwyr dystio i ymddygiad na yw'n briodol neu sy'n torri safonau gofal plant a bydd hyn yn peri gofid i'r ymchwilydd. Os bydd data'n cael i gam-drin, gall hyn cael effaith negyddol ar eu gwaith neu eu hastudiaethau yn y dyfodol.	*Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Ymchwilydd:* Cyn dechrau'r cyfweliad, fydd yr ymchwilydd yn darllen y polisïau i fod yn ymwybodol o bolisïau'r lleoliad. Fydd hefyd rhaid i'r ymchwilydd cael DBS gyfredol llawn ar i ymweld ar leoliadau. Mae'r ymchwilydd hefyd yn fyfyriwr blynyddoedd cynnar ac mae'n ymwybodol o arfer gorau'r blynyddoedd cynnar. Mae llythyrau caniatad yn dweud fe gall cyfrinachedd cael i dorri os os yw'n gweld safonau sy'n is na'r safonau gofynnol cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Cymru (2020) neu'n torri safonau diogelu neu ddeddfwriaeth gofal eraill. Fel ymchwiydd, gallen dily y gweithdrfnau cwyno os mae ymddygiad neu ofal amrhiodol. Hefyd, mae opswin i gael trafodaeth efo thiwtor er mwyn cael unrhyw gymorth ac arweiniad pellach gan UWTSD. O dan ddeddf ddiogelu data 1998, bydd y holl ddata a gasglwyd yn cael i storio'n ddiogel naill mewn cwpwrdd dan glo, mewn ystafell dan glo neu ar gyfrifiaduron y Brifysgol ar ofod cof personol sydd wedi'i ddiogelu gan fur tan, mynediad cyfrinair yn unig ac wedi'i amgryptio. Felly, mae'n annhebygol y bydd y data'n mynd ar goll.
7	**Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad** Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data	
	Risg i'r Brifysgol:	*Sut byddwch chi'n lleihau'r Risg i'r Brifysgol:*

	Gallai cyhoeddusrwydd anffafriol godi os bydd yr ymchwilydd yn methu a chadw at bolisïau neu'n gweithdrefnau'n amhriodol/amhroffesiynol. Os mae'r ymchwilwyr yn camdrin rholau cyfrinachedd a diogelu, bydd yr Brifysgol yn cael cyhoeddusrwydd negyddol. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*	Bydd yr ymchwilydd yn darllen polisïau'r lleoliad i fôr yn ymwybodol am y holl bolisïau ac arfer gorau. Bydd trafodaeth efo'r arweinydd i drafod y polisïau a normau'r lleoliad. Mae'r ymchwilydd hefyd yn fyfyriwr blynyddoedd cynnar ac mae'n ymwybodol o arfer gorau'r blynyddoedd cynnar. Bydd yr holl ddata'n cael ei storio'n ddiogel naill ai mewn cwpwrdd dan glo, mewn ystafell dan glo. Hefyd, opsiwn arall yw ar gyfrifiaduron y Brifysgol ar ofod cof personol sudd wedi'i ddiogelu gan fur tan, mynediad cyfrinair yn unig ac wedi'i amgryptio. Felly, mae'n annhebygol y bydd y data'n mynd ar goll. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

8	**Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**			
9	Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn.	**OES**	**NAC OES**	**AMH.**
10	A yw'n ofynnol bod gennych Dystysgrif DBS gyfredol ar gyfer eich ymchwil?	☒	☐	☐

ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

1	**Adborth** Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?
	Bydd yr adroddiad a gyhoeddir o'r ymchwil yn cael eu rhannu â chyfranogwyr. Pan fydd yr ymchwil wedi'u chwblhau, bydd yr ymarferwyr i gyd yn derbyn llythyr ysgrifenedig wrth yr ymchwilydd i gyflwyno'r canfyddiadau o'r cyfweliad. Dywed yn y llythyr, os oes unrhyw gwestiynau neu mae angen mwy o wybodaeth, gallant nhw gysylltu â'r ymchwilydd i drafod. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
2	**Cydsyniad gwybodus** Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol.
	Bydd pob llythyr angen i ddychwelyd gyda llofnod caniatâd i sicrhau bod cyfranogwyr yn rhoi caniataid uniongyrchol. Yn y llythyron mae'n amlinellir gwybodaeth am yr hawl i dynnu'n ôl , a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phŵer a phorthorion. Noda yn y llythyr, na fydd effaith ar yr ofal a chynhwysiant y plant yn y lleoliad os na pheidio â chymryd rhan. O dan y ddeddf diogelu data 1998, ni chaiff unrhyw ddata personol yn cael ei gasglu. Gan fod recordiadau sain, bydd y rhain yn cael i ganiatáu gan y cyfranogwyr i gael i gadw'n ddiogel gan yr ymchwilydd. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*
3	**Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd** Nodwch sut y sicrheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.
	Bydd lleoliadau yn cael i gadw'n ddienw ym mhob math o adborth, a ni fydd disgrifiadau o'r lleoliad yn eu hadnod. Bydd y recordiadau sain yn cael i ddefnyddio er mwyn dadansoddi'r ymchwil, na fydd hyn yn ddeunydd cyhoeddedig, felly bydd hyn yn cael i gadw'n gyfrinachol. Ni fydd enwau cyfranogwyr yn cael i gyhoeddi, os mae eisiau enwi cyfranogwyr bydd hyn yn cael i wneud gan ddefnyddio enwau ffug. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*

ADRAN J: Diogelu a Storio Data

Wrth gwblhau'r adran hon cyfeiriwch at Bolisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol a'r adnoddau helaeth ar dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol (http://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/).

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)?	**YDY**	**NAC YDY**
	*Mae **"data personol"** yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.*	x	☐
2	Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
	Gellid defnyddio'r recordiadau ffilm a llais a gasglwyd i adnabod unigolion.		
3	A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)?	**YDY**	**NAC YDY**
	*Mae **"Data categori arbennig"** yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data -* *(a) tras hiliol neu ethnig,* *(b) safbwyntiau gwleidyddol,* *(c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg,*	☐	X

	(d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992), *(e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol,* *(f) bywyd rhywiol,* *(g) geneteg,* *(h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),*		
4	Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data categori arbennig ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

5	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys storio data personol a/neu ddata categori arbennig ar un o'r canlynol:	**BYDD**	**NA FYDD**
6	Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)?	☒	☐
7	Cyfrifiaduron y brifysgol?	☒	☐
8	Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?	☐	☒
9	Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?	☐	☒
10	Gliniaduron / CDs / disgyrwyr cludadwy / cofbinnau?	☐	☒
11	Storio yn y "cwmwl" neu wefannau?	☐	☒
12	Arall – noder:	☐	☒
13	Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd yn eu lle i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, yn cynnwys manylion diogelu'r data gan gyfrinair, eu hamgryptio, eu gwneud yn ddienw a'u rhoi dan ffugenw:		
	Bydd pob math o wybodaeth sy'n cynnwys yn yr ymchwil yn cael i storio mew cwpwrdd dan glo mewn swyddfa dan glo, ac ni all pobl eraill gael mynediad a hefyd y Dictaphone. Bydd y recordiadau ar y Dictaphone yn cael i lawrlwytho ar y cyfrifiadur mewn ffeil yn ofod preifat yr ymchwilydd, ar gyfrifiadur y Brifysgol. Mae hyn wedi'i ddiogelu gan gyfrinair yn storfa ddigidol ddiogel y Brifysgol tu ôl i Firewall a meddalwedd firysau. Mae'r cyfrifiadau hefyd wedi'i amgryptio. *(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)*		
14	**Storio Pob Data**		
15	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:	**BYDD**	**NA FYDD**
16	Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?	☐	☒
17	Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol?	☐	☒
18	Rhannu data â sefydliadau eraill?	☐	☒
19	Allforio data y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?	☐	☒
20	Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?	☐	☒
21	Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?	☐	☒
22	Defnyddio system rheoli data?	☐	☒
23	Archifo data?	☐	☒
24	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (a/neu unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol):		

25	Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:		
	Yr ymchwilwydd, Caitlin Haf Davies a Tiwtor, Sioner Saer		
26	Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:		
	Yr ymchwilwydd, Caitlin Haf Davies a Tiwtor, Sioner Saer		
27	Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam.		
	Bydd y data yn cael ei storio am hyd at bum mlynydd ar gyfrifiadur y Brifysgol. Bydd y data gan gyfrinair yn storfa digidol diogel y Brifysgol tu ôl i Firewall a meddalwedd firysau. Mar cyfrifiadur hefyd wedi'i amgrypio. Ar ôl pum mlynedd bydd y recordiadau'n cael eu dileu.		
28	Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler https://researchdata.uwtsd.ac.uk/). Os felly, eglurwch. *(Yn fwyaf perthnasol i staff academaidd)*		
29	Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/)	**YDW**	☒
		NAC YDW	☐
30	Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid	**YDW**	☒
		NAC YDW	☐

ADRAN K: Datganiad

31	Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymiadau innau a hawliau'r cyfranogwyr. Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan:. https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/		
	Llofnod yr Ymgeisydd:	C.H.Davies	**Dyddiad:** 23/10/21

Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:

32	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:		**Dyddiad:**
33	Llofnod:		

Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:

34	Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol:		**Dyddiad:**
35	Llofnod:		

Rhestr Wirio: Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

☒	Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
☒	Rwyf wedi cwblhau **HOLL ADRANNAU PERTHNASOL** y ffurflen yn llawn.
☒	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
☐	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (**lle bo'n briodol**).
☐	Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (a HEB gwblhau Adran H y ffurflen hon) (lle bo'n briodol) *TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI **ATODI ASESIAD RISG LLAWN***
☒	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☒	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd.
☒	Rwyf wedi dileu'r nodiadau cyfarwyddyd cyn cyflwyno'r ffurflen PG2 i'w hystyried.

MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn. Fe gewch wybod am ganlyniad eich cais drwy e-bost; felly mae'n bwysig eich bod yn darllen eich negeseuon e-bost Prifysgol a phersonol yn rheolaidd.
Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADDEDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/ arweinydd modwl.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn electronig ar dudalennau gwe'r Swyddfa Academaidd:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/

Y Broses Ymgeisio

Rhaid i holl brosiectau ymchwil y staff a'r holl fyfyrwyr ymchwil gyflwyno'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol trwy'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig (pgresearch@uwtsd.ac.uk). Dylai ymchwil staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag astudiaeth bersonol ar gyfer rhaglenni israddedig neu raglenni Meistr a addysgir gael eu cyflwyno trwy weithdrefnau'r Athrofa, a eglurir isod.

Ystyrir **Ffurflenni Cais am Gymeradwyaeth Foesegol** ar gyfer **ymchwil israddedig a Meistr a addysgir o fewn yr Athrofeydd.** Bydd yr Athrofeydd yn darparu manylion y prosesau penodol ar gyfer hyn. Os yw'r materion Moesegol o fewn unrhyw gais moesegol unigol yn peri pryder arbennig, bydd yr Athrofa'n cyfeirio'r rhain at Bwyllgor Moeseg y Brifysgol. Mae angen i unrhyw weithgarwch gan fyfyrwyr sy'n cynnwys casglu data gwreiddiol dderbyn cymeradwyaeth Foesegol. Mae hyn yn cynnwys gwaith aseiniad yn ogystal â thraethodau hir.

Nodiadau cyfarwyddyd i gwblhau'r ffurflen

Adran A: Amdanoch chi
Cwblhewch bob adran berthnasol

Adran B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil
Mae'n rhaid i gynigion ymchwil gael eu cymeradwyo mewn egwyddor cyn gwneud cais am Gymeradwyaeth Foesegol. Nid yw'r gymeradwyaeth i'r cynnig yn derfynol tan y derbynnir cymeradwyaeth foesegol.

Mae'r broses o gymeradwyo cynigion yn amrywio yn ôl yr unigolyn a'r rhaglen astudio:

- Myfyrwyr ymchwil, trwy gais ar ffurflen PG1 i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil
- Myfyrwyr a addysgir trwy adolygu cynnig ymchwil o fewn Athrofeydd (darperir manylion penodol y prosesau hyn gan yr Athrofeydd)
- Staff, trwy gytundeb y Cyfarwyddwr Academaidd/Deon Cynorthwyol

Adran C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Allanol
Mae'n ofynnol i nifer o feysydd disgyblaeth weithredu o fewn y codau moeseg ymchwil sy'n benodol i'r ddisgyblaeth (er enghraifft iechyd, seicoleg, addysg ac ati). Mae'n rhaid rhestru'r codau hyn a rhoi tic i gadarnhau eich bod wedi edrych ar y rhain.

Adran D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol
Rhowch fanylion y partneriaid cydweithredol allanol. Lle bo'n briodol, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cyflwyno copi o'r cytundeb cydweithredu allanol gyda'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol. Os mynna'r partner bod yr ymchwil yn mynd trwy ei broses cymeradwyo Moesegol fewnol ei hun yna rhowch fanylion y broses honno a chopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu interim) a dderbyniwyd gan y sefydliad.

Adran E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil
Cofiwch ei bod yn bosibl na fydd unigolion sy'n adolygu'r Ffurflen Gais hon am Gymeradwyaeth Foesegol wedi gweld eich cynnig ymchwil, a hefyd efallai nad ydynt yn arbenigwyr ym maes penodol eich ymchwil. O'r herwydd dylai'r wybodaeth a roddir fod yn ddi-jargon ac wedi'i mynegi'n glir.
Teitl dangosol: defnyddiwch yr un teitl â'r hyn a ddefnyddiwyd ar y cynnig ymchwil.
Pwrpas: diben y broses gymeradwyo Foesegol fydd sicrhau bod y dulliau y bwriadwch eu defnyddio yn ddigonol ac yn briodol i nodau ac amcanion yr ymchwil. Gellir ystyried bod casglu data ychwanegol gormodol yn anfoesegol.
Dulliau Arfaethedig: mae'r broses cymeradwyo Moesegol yn ceisio sicrhau eich bod yn deall y dulliau a fwriedir, ac y gweithredir y dulliau hynny'n briodol heb gael effaith ddianghenraid ar ymatebwyr. Rhaid i'r adran hon egluro sut y bydd y dulliau a ddisgrifir yn arwain at gasglu data angenrheidiol a digonol, ond nid data gormodol. Byddwch yn benodol os gwelwch yn dda.
Lleoliad: mae angen i hyn sôn am leoliad daearyddol a hefyd y sefyllfa leol (er enghraifft, o fewn Swyddfeydd yr Awdurdod Lleol yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio ystafell breifat ond yn agos at unigolion eraill). Os ydych yn casglu data o fewn lleoliad sefydliadol yna mae angen i chi egluro'r caniatâd rydych wedi'i gael i wneud hyn.
Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU: cwblhewch yr adran hon yn fanwl, a nodwch unrhyw arweiniad rydych wedi'i dderbyn. Yn ogystal disgrifiwch pa mor gyfarwydd (neu beidio) yr ydych â'r lleoliad y byddwch yn ei ddefnyddio.

Adran F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil
Ticiwch BOB UN o'r gweithgareddau ymchwil y gellid eu cynnal. Os bwriedir cynnal unrhyw fathau ychwanegol o weithgarwch, ychwanegwch flwch arall a'u disgrifio.
Os ydych wedi ateb 'na fydd' i bob cwestiwn yn adran F yna nid oes angen cwblhau adrannau G a I. Mae angen llofnodion o hyd yn adran K.

Adran G: Cyfranogwyr Arfaethedig
Ticiwch bob categori a allai fod yn berthnasol.
Niferoedd a Ffynhonnell: os ydych yn defnyddio cyfres o ddulliau neu weithgareddau ymchwil gwahanol, rhestrwch y niferoedd ar gyfer pob cyfnod/cam. Byddwch yn glir ynghylch sut y byddwch yn dod o hyd i ymatebwyr. A fyddwch yn defnyddio canolwyr, ac os felly, sut? Sut byddwch chi'n sicrhau y cydymffurfir â'ch strategaeth samplu?
Gwybodaeth i gyfranogwyr: dylai'r holl gyfranogwyr dderbyn gwybodaeth briodol am yr ymchwil, yr hyn a ddisgwylir ganddynt a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddant yn ei darparu. Nid yw'r broses adolygu Foesegol yn gofyn am weld y ddogfennaeth hon, ond mae angen iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn achos myfyrwyr ymchwil, y goruchwyliwr/tiwtor modwl mewn perthynas â myfyrwyr ar raglenni a addysgir a'r Cyfarwyddwr Academaidd/Deon Cynorthwyol mewn perthynas ag ymchwil staff.

Adran H: Risgiau a Ragwelir
Mae lefel o risg yn gysylltiedig â phob ymchwil. Bydd yr atebion a roddwch i gwestiynau yn yr adran hon yn cael eu hadolygu i sicrhau fod gennych ddealltwriaeth briodol o'r math o risgiau dan sylw a sut y gallwch liniaru effeithiau'r risgiau hyn. Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn, fel sy'n ofynnol er enghraifft ar gyfer gwaith labordy, gwaith maes, profion clinigol, gweithgareddau deifio, neu gan bartner cydweithredol, gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon. Os felly, ticiwch y blwch hwn i nodi ei fod wedi'i ddarparu. Ni fydd angen i chi gwblhau Adran H wedyn.
Risgiau i gyfranogwyr Meddyliwch yn ofalus iawn ynghylch sut y gallai eich gweithredoedd/ cwestiynau/trafodaethau effeithio ar y bobl rydych yn eu cynnwys fel cyfranogwyr. Mae'n bosibl y byddwch chi'n ystyried y risg yn un bach ond byddai'n dal i fod yn risg. Mae gan sawl math o gwestiwn y potensial o wneud ymatebwyr yn llai hapus â'u bywyd / swydd; mae angen i chi adnabod a cheisio lleddfu effeithiau o'r fath.
Os mai perchnogion busnes yw'r rhain, gallai amser gyda chi leihau elw.
Mewn rhai lleoliadau mae risg corfforol yn un real iawn i gyfranogwyr ac i chithau, felly ystyriwch hyn.
Risg i chi, yr ymchwilydd Meddyliwch ble y byddwch yn cwrdd â phobl, ac a oes unrhyw beryglon yn gysylltiedig â'r lleoliad. Os ydych yn cwrdd â phobl fel unigolion, ystyriwch ddefnyddio man cyhoeddus. Yn gyffredinol peidiwch ag ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain na lleoliadau diarffordd. Os ydych yn siarad ag unigolion am faterion penodol, meddyliwch sut y gallai eu hymatebion effeithio arnoch chi'n emosiynol. Beth am y risg o gasglu data annigonol?
Risg i'r Brifysgol Wrth ymgymryd â'ch ymchwil, rydych yn gweithredu fel aelod o'r Brifysgol (myfyriwr neu staff). Mae proffesiynoldeb yn bwysig, felly mae'n bwysig bod yn drefnus iawn a pharatoi'n dda. Mae prydlondeb, eglurder ac ati oll yn rhan o hyn. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau hyn? Rhaid i chi sicrhau nad ydych yn niweidio enw da'r Brifysgol mewn unrhyw ffordd nac yn gwneud unrhyw beth i danseilio enw da'r ymchwil mae'n ei gynnal a'i noddi. Mae cynnal safonau uchel o ran ymddygiad ac integredd yn hanfodol yn hyn o beth. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnal yr ymchwil mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd o honiadau am esgeulustod yn erbyn y Brifysgol, ei hymchwilwyr ac unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cydweithio â hi. Yn hyn o beth dylech bob amser gydymffurfio â fframweithiau, ymrwymiadau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol sy'n ofynnol gan awdurdodau statudol a rheoleiddio, yn ogystal â Chod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y brifysgol. Mae sawl math o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil, gan gynnwys:

- dweud celwydd: dyfeisio canlyniadau ffug neu gynnyrch ffug eraill (e.e. arteffactau) a'u cyflwyno fel petaent yn real
- ffugio: camddefnyddio prosesau ymchwil neu newid neu hepgor data heb achos da
- llên-ladrad: defnyddio deunydd pobl eraill heb roi clod priodol iddynt
- methu â bodloni ymrwymiadau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol: er enghraifft methu â datgan buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd; cam-gyfleu cyfraniad neu awduraeth; cam-gyfleu buddiannau; torri cyfrinachedd; diffyg cydsyniad gwybodus; camddefnyddio data personol; a cham-drin gwrthrychau neu ddeunyddiau ymchwil
- ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn: methu â mynd i'r afael â throseddau megis ymdrechion i guddio camymddwyn a dial yn erbyn chwythwyr chwiban

Canlyniadau Niweidiol. Meddyliwch yn ofalus am y posibiliadau, a rhoi sylw iddynt yma

Adran I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd
Adborth i gyfranogwyr: amlinellwch eich dull. A fydd trawsgrifiadau cyfweliadau yn cael eu rhannu gydag ymatebwyr i wirio cywirdeb? A fydd crynodebau o ddadansoddiadau holiaduron yn cael eu darparu i ymatebwyr mewn rhyw fodd? A ddarperir adroddiad trosolwg? Sut a phryd?
Cydsyniad Gwybodus Mae'n rhaid i lythyr drafft / e-bost neu bennyn (neu droedyn) holiadur gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/goruchwyliwr (os mai myfyriwr ymchwil ydych), goruchwyliwr/tiwtor modwl os mai myfyriwr a addysgir ydych, neu'r Cyfarwyddwr Academaidd/Deon Cynorthwyol os ydych yn aelod o'r staff.
Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd Esboniwch yn glir sut y byddwch yn sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd.

Adran J: Diogelu a Storio Data
Cyn cwblhau'r adran hon mae angen darllen gwybodaeth y Brifysgol ar Reoli Data Ymchwil. Mae'r cwestiynau sy'n dilyn wedi'u bwriadu i sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data yn ogystal â phrotocolau ymchwil sefydledig.

Bydd nifer o weithgareddau ymchwil yn cynnwys trosglwyddo data'n electronig a'r defnydd o systemau rheoli data wrth grynhoi a dadansoddi data. Bydd angen i chi esbonio'r rhain mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.
Meddyliwch yn ofalus ynghylch pwy fydd â hawl gweld eich data. Bydd hyn yn cynnwys goruchwylwyr ac arholwyr. Hefyd cofiwch y bydd traethawd ymchwil ar gael i'w weld trwy lyfrgell y Brifysgol a system y Llyfrgell Brydeinig. Os ydych yn ceisio gwaharddiad rhag gweld y traethawd am gyfnod o amser wedi iddo gael ei

gwblhau, yna soniwch am hynny yma. Os byddwch yn darparu copi o'ch casgliadau, neu'n bwriadu rhoi cyflwyniad, i sefydliad sy'n hwyluso / cefnogi / cynnig mynediad, yna esboniwch hynny yn yr adran hon. Ond meddyliwch hefyd am yr egwyddor gyffredinol o rannu data, fel yr eglurwyd yn y wybodaeth ar Reoli Data Ymchwil.
O ran storio data, sicrhewch ddiogelwch, a hefyd lliniarwch effeithiau colli data.

Adran K: Datganiad
Sicrhewch fod y cydlofnodion priodol wedi'u cynnwys
Edrychwch yn ofalus ar y rhestr wirio a sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â phob un sy'n berthnasol i'ch ymchwil ac wedi'u ticio.

Rhester Cyferinodi

Autism Wales (2020) Autism: A guide for Early Years Settings. Ar gael o: https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/08/A-Guide-for-Early-Years-Settings_Eng.pdf (Darllenwyd 17/10/21)

Barnett, J.H. (2018) 'Three evidence-based strategies that support social skills and play among young children with autism spectrum disorders', *Early Childhood Education Journal,* 46(6), tt.665-672. https://doi.org/10.1007/s10643-018-0911-0 (Darllenwyd:13/10/21)

BERA (2018) 'Ethical Guidelines for Educational Research fourth edition', *London. Ar gael o: https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018* (Darllenwyd:19/10/21)

Brodzeller, K.L. et al. (2018) 'Interventions and adaptations for children with autism spectrum disorder in inclusive early childhood settings', *Early Childhood Education Journal*, 46(3), tt.277-286. DOI 10.1007/s10643-017-0859-5 (Darllenwyd:13/10/21)

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiad) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – Testun Llawn. Ar gael o: CCUHP - Hawliau Plant - Children's Commissioner for Wales (complantcymru.org.uk) (Darllenwyd:19/10/21)

Flewitt, R. (2005) 'Conducting research with young children: some ethical considerations', *Early child development and care,* 175(6), tt,553-65. Ar gael o: https://discovery.ucl.ac.uk/id/eprint/1485334/1/Flewitt_%20early%20child%20development%20and%20care%255CFlewitt%252C%202005%252C%20Conducting%20res.pdf (Darllenwyd:21/10/21)

Gascoyne, S. (2016) *Sensory Play: Play in the EYFS (Vol.1).* Andrews UK Limited. (Darllenwyd:21/10/21)

Holmes, E. a Willoughby, T. (2005) 'Play behaviour of children with autism spectrum disorders', *Journal of Intellectual and Developmental Disability*, 30(3), tt.156-164. DOI: 10.1080/13668250500204034 (Darllenwyd:17/10/21)

King, N. et al. (2018) *Interviews in qualitative research*. Sage. (Darllenwyd 21/10/21)

Llywodraeth Cymru (2018) Ddedf anghenion dysgu ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-memorandwm-esboniadol.pdf (Darllenwyd:19/10/21)

Llywodraeth Cymru (2019), Support for Children and Young People with Autistic Spectrum Disorder (ASD) in educational settings, Addysg Cymru. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/ways-of-supporting-learners-with-autistic-spectrum-disorder-asd.pdf (Darllenwyd 13/10/31)

McLoed, SA. (2014), Lev Lygotsky. Ar gael o: https://scholar.google.co.uk/scholar?hl=en&as_sdt=0%2C5&q=vygotsky+more+knowledgeable+other+theory&oq=vygotsky+more+ (Darllenwyd:19/10/21)

Movahedazarhouligh, S. (2018) 'Teaching play skills to children with disabilities: Research based interventions and practices', *Early Childhood Education Journal*, 46(6), tt.587-599. https://doi.org/10.1007/s10643-018-0917-7 (Darllenwyd:13/10/31)

NHS (2019) What is autism? Ar gael o: https://www.nhs.uk/conditions/autism/what-is-autism/ (Darllenwyd:19/10/21)

Richards, L. (2020) *Handling qualitive data: A practical guide.* Sage. (Darllenwyd:20/10/21)

Robert-Holmes, G. (2018) *Doing your early years research project: A step to step guide.* Sage. (Darllenwyd:19/10/21)

Sherrat, D. a Peter, M. (2012) *Developing play and drama in children with autistic spectrum disorders.* David Fulton Publishers. (Darllenwyd:17/10/21)

Tissot, C. a Evans, R. (2003) 'Visual teaching strategies for children with autism', *Early Child Development and Care,* 173(4), tt.425-433. https://doi.org/10.1080/0300443032000079104 (Darllenwyd:17/10/21

Wilson, V. (2012) Research methods: interviews*. Evidence Based Library and Information Practice,* 7(2), tt.96-98. Ar gael o: ojsadmin,+Journal+manager,+EBL101.pdf (Darllenwyd: 19/10/21)

Wolfberg, P. et al. (2012) 'Including children with autism in social and immaginary play with typical peers: Integrated Play Groups Model', *American Journal of Play,* 5(1), tt.55.80. Ar gael o: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ985604.pdf (Darllenwyd:13/10/31)